Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes
**Llanidloes**
**Powys**
**SY18 6EX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes yn nhref Llanidloes yn awdurdod lleol Powys. Mae 306 o ddisgyblion amser llawn rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr, yn cael eu haddysgu mewn 11 dosbarth. Mae hyn yn cynnwys 26 o ddisgyblion sy'n mynychu'r meithrin yn amser llawn. Mae naw o athrawon amser llawn a phedwar o athrawon rhan-amser. Mae canolfan arbenigol yr ardal ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu wedi'i lleoli yn yr ysgol, ac mae'n cyflogi un athro amser llawn a dau gynorthwyydd addysgu rhan-amser. Mae pob disgybl yn y ganolfan ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae gan ryw 10% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o darddiad ethnig gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt o gefndiroedd ethnig eraill. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg mamiaith. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 10% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008. Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 2013.

Mae'r gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,371 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhowys yw £10,978 a'r isafswm yw £3,102. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes yn safle 76 allan o'r 88 ysgol gynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae tuedd o wella mewn cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
- mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn dda ar y cyfan;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn foesgar a chwrtais;
- mae medrau creadigol disgyblion yn dda iawn ac maent yn creu gwaith celf o ansawdd uchel; ac
- mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol;
- mae partneriaeth gref gyda rhieni yn cael effaith fuddiol ar lefelau lles y rhan fwyaf o ddisgyblion;
- mae'r corff llywodraethol yn gefnogol a gwybodus;
- mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion eraill; ac
- mae trefniadau da iawn ar gyfer amser paratoi, cynllunio ac asesu athrawon, ac fe gânt effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi safonau cyffredinol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl

A2 Gwella safonau disgyblion mewn ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn y Cyfnod Sylfaen

A3 Codi lefelau presenoldeb

A4 Mireinio prosesau i wella'r ysgol i sicrhau bod cynlluniau'n canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol

A5 Sicrhau bod monitro ac arfarnu yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol

A6 Mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac oedolion eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig, yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn awyddus i ymuno â thrafodaethau dosbarth a grŵp. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando gyda diddordeb ar oedolion a disgyblion eraill ac maent yn siarad gyda hyder cynyddol a geirfa gynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau darllen. Maent yn siarad am storïau gyda brwdfrydedd ac mae'r disgyblion mwy abl yn mynegi ffafriaeth am hoff lyfrau ac awduron. Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth ffonig a'r lluniau mewn llyfrau yn dda i'w helpu i ddarllen. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ystod ddigon eang o strategaethau i'w defnyddio wrth geisio darllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 2 yn deall diben tudalen gynnwys a gallant ei defnyddio'n effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth benodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl. Maent yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddweud beth allai ddigwydd nesaf mewn stori neu pam mae cymeriadau'n ymddwyn mewn ffyrdd penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rheolaidd er pleser ac yn siarad yn hyderus am y llyfrau a'r awduron y maent yn eu hoffi. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 frasddarllen testun i ddod o hyd i'r prif bwyntiau.

Mae disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'u gwybodaeth ffonig gynyddol i ysgrifennu geiriau syml a brawddegau byrion yn annibynnol. Wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu defnyddio priflythrennau ac atalnodi brawddeg sylfaenol yn briodol yn eu hysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau'n gywir yn eu llawysgrifen. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn mwynhau defnyddio storïau fel symbyliad ar gyfer eu hysgrifennu. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o strwythur stori ac yn cynllunio'u hysgrifennu'n dda. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac at ystod o ddibenion ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu digon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod o ffurfiau at wahanol ddibenion. Maent yn cymhwyso'r medrau ysgrifennu hyn yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiaduron ffermwyr Celtaidd a chynllunio ymchwiliadau ar ffrithiant mewn gwyddoniaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o atalnodi'n dda ac yn sillafu nifer gynyddol o eiriau'n gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da mewn TGCh erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw medrau disgyblion mewn TGCh yn y Cyfnod Sylfaen wedi'u datblygu digon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn dysgu lluosi â 2 a 10, dyblu rhifau a chyfrifo cost teganau. Gall disgyblion mwy abl ganfod arwynebedd petryalau

a gwirio'u gwaith gan ddefnyddio cyfrifiannell a gallant gyfrif yn ôl o 100 fesul deg. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys gwneud siartiau cyfrif o hoff fwydydd a defnyddio olwynion mesur i fesur pa mor bell y mae seiniau'n teithio. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd. Gallant amcangyfrif a mesur onglau a chyfrif canrannau a mynegi'r rhain fel ffracsiynau. Maent yn cymhwyso'u medrau'n dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft dod o hyd i gyfartaleddau mewn gwyddoniaeth a chyfrif poblogaeth mewn daearyddiaeth.

Mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau yn Gymraeg a gallant ddarllen ac ysgrifennu ymadroddion syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion siarad am destunau cyfarwydd gan ddefnyddio amser y gorffennol a'r presennol. Gall y disgyblion mwy abl ymestyn eu brawddegau gan ddefnyddio cysyllteiriau. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn dda gan ynganu'n dda, ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Maent yn ysgrifennu dilyniannau o frawddegau yn Gymraeg yn gywir.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn creu gwaith celf o ansawdd uchel iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad yn 2013 ar y deilliant 5 disgwyliedig yn well nag ydoedd yn 2012 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn aros yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran perfformiad yn y ddau faes. Roedd perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 yn 2013 hefyd yn uwch nag ydoedd yn 2012 mewn datblygiad mathemategol. Mae perfformiad mewn llythrennedd yn debyg ar gyfer y ddwy flynedd. Mae perfformiad ar y lefel hon yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn llythrennedd a'r 50% is mewn datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, bu tuedd ar i fyny mewn perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y pedair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yn 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer pob un o'r tri phwnc a'r dangosydd pwnc craidd. Ar y lefel 5 uwch, mae perfformiad ym mhob un o'r tri phwnc yn uwch yn 2013 nag yn y pedair blynedd flaenorol. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar lefel 5 yn 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth a'r 50% is ar gyfer mathemateg.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn grwpiau ymyrraeth bach, yn enwedig wrth wella'u medrau darllen.

### Lles: Digonol

Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent wedi'u cymell ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda, er enghraifft wrth gynllunio'u gwibdaith eu hunain i Lancaiach Fawr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus, yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion.

Mae presenoldeb, o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg, wedi bod yn y 25% isaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae gwaith da gan yr ysgol yn ddiweddar yn dechrau dangos gwelliant mewn ffigurau presenoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn awyddus i gymryd rhan yn yr ystod amrywiol o weithgareddau allgyrsiol a gynigir iddynt.

Mae bron pob disgybl yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i wneud penderfyniadau am weithgareddau ysgol trwy gymryd rhan yn y cyngor ysgol a'r cyngor chwaraeon, er enghraifft. Mae disgyblion yn cymryd y cyfrifoldebau hyn o ddifrif. Mae'r cyngor ysgol wedi rhoi system cyfeillion ar waith yn ddiweddar, ac mae wrthi'n gweithio ar wella bwyta'n iach ar hyn o bryd. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at fywyd yn y gymuned leol. Maent yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a gynhelir gan fusnesau lleol, yn arddangos gwaith celf mewn siopau lleol ac yn gweithio gyda chrefftwyr i greu cerfluniau helygen a chwrlid ffelt. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion ac yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio rhaglenni dysgu pwrpasol ar y cyd. Mae cynlluniau gwaith yn cysylltu dysgu disgyblion ar draws pynciau ac yn darparu cwricwlwm cytbwys. Mae clybiau allgyrsiol yn gwella gweithgareddau dysgu yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y clwb newyddiadurwyr, clwb llyfrau a chlwb chwaraeon. Mae'r clwb celf arloesol ar ôl yr ysgol yn gwella medrau creadigol disgyblion mwy abl yn eithriadol o dda.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad, gwrando a darllen ar draws yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu ystod dda o weithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol mewn arddulliau gwahanol. Fodd bynnag, mae dibynnu'n ormodol ar daflenni gwaith yn aml yn rhwystro annibyniaeth disgyblion a'r cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer TGCh yng nghyfnod allweddol 2 yn effeithiol mewn gwersi arbenigol a addysgir. Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh wedi'i datblygu digon.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn effeithiol, gan roi cyfleoedd i ddisgyblion ymweld â lleoedd o ddiddordeb fel Castell Henllys. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am waith Cymry enwog, er enghraifft Kyffin Williams a Laura Ashley.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddysgu am faterion amgylcheddol fel ailgylchu ac arbed ynni.  Mae darpariaeth dda i ddisgyblion ddysgu am eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cymell disgyblion yn dda ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau i gefnogi dysgu disgyblion.  Maent yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn deall nodau gwersi ac yn rhoi esboniadau clir o dasgau a gweithgareddau.  Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth bresennol am destunau yn dda i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn briodol.  Mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol mewn gwersi a grwpiau tynnu allan o wersi.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae'r dysgu'n symud yn rhy araf.  Yn y dosbarthiadau hyn, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel ac mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd.  Mae sylwadau ysgrifenedig llawer o athrawon yn helpu disgyblion i weld pa mor dda y maent wedi gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.  Mae llawer ohonynt yn rhoi amser i ddisgyblion weithredu yn unol â'r adborth hwn ac mae hyn yn helpu disgyblion i gyflawni eu targedau gwella personol.  Mae rhai athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.  Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud asesiadau cywir o gyflawniadau disgyblion.  Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.  Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.  Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn briodol.  Maent yn rhoi manylion am gyflawniadau disgyblion a'r camau nesaf yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu lles disgyblion.

Mae system dda ar gyfer gofal bugeiliol, sy'n meithrin perthnasoedd da, ymddygiad a pharch yn effeithiol.  Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda.  Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am wisg, dawnsio a cherddoriaeth Affricanaidd.  Mae bron pob un o'r disgyblion a'r rhieni'n hyderus i droi at aelodau o staff am gymorth, cyngor ac arweiniad pan fydd angen.  Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae cyswllt da gydag ystod o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion emosiynol, ymddygiadol, corfforol ac addysgol disgyblion.  Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu'n dda.  Mae athrawon disgyblion sy'n ymweld â'r ganolfan arbenigol yn yr ysgol yn defnyddio cyngor gan yr asiantaethau hyn yn dda i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn cynorthwyo'r disgyblion hyn yn effeithiol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu dynodedig yn cynnig lefel dda o gymorth i unigolion a grwpiau bach o ddisgyblion, sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion. Mae staff yn cofnodi cynnydd disgyblion ar raglenni ymyrraeth yn ofalus i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gwneud y gwelliannau gofynnol. Mae disgyblion â chynlluniau addysg unigol yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn annog ethos cadarnhaol, cefnogol a gofalgar lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol, beth bynnag fo'u hanghenion neu'u hamgylchiadau. Caiff pob disgybl gyfleoedd i fynychu clybiau ar ôl yr ysgol, ymuno â phwyllgorau'r ysgol a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae ystod dda o weithgareddau'n helpu i godi ymwybyddiaeth am amrywiaeth, gan gynnwys astudio gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau.

Mae adeiladau'r ysgol, sy'n cael eu cynnal yn dda, yn darparu amgylchedd ysgogol i ddisgyblion ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd addysgu yn olau a deniadol ac mae gwaith celf disgyblion yn ychwanegu diddordeb a lliw at leoedd cymunedol. Mae safon arddangosiadau wal yn uchel ac maent yn dangos gwaith a chyflawniadau disgyblion yn effeithiol. Mae adnoddau yn yr ysgol a'r tu allan yn cefnogi addysgu a dysgu'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae adnoddau ar gyfer TGCh wedi dyddio. Tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at fater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Dros y deunaw mis diwethaf, mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth wedi creu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddiannus, sydd wedi galluogi'r ysgol i symud ymlaen yn llwyddiannus. Mae cyfrifoldebau dynodedig clir gan yr uwch dîm rheoli a ffurfiwyd yn ddiweddar. Mae staff addysgu wedi cytuno ar ddisgrifiadau swydd sy'n diffinio'u rolau'n dda.

Mae'r uwch dîm rheoli'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd ac mae cyfarfodydd staff yn cynnwys ffocws clir ar dargedau ysgol gyfan. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm i fwrw ymlaen â mentrau newydd. Mae rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn effeithiol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau mewn sillafu, er enghraifft. Mae adolygiadau anffurfiol gyda chynorthwywyr cymorth dysgu yn nodi anghenion hyfforddi'n dda, ond nid ydynt yn gosod targedau perfformiad.

Mae ffocws priodol ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol a gwybodus. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ac ysgolion eraill yn yr un teulu. Maent yn gwybod beth yw'r blaenoriaethau presennol ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'r is-bwyllgor cwricwlwm a ffurfiwyd yn ddiweddar yn dod â mwy o strwythur i waith llywodraethwyr wrth fonitro'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at y blaenoriaethau cytûn hyn. Mae hyn yn helpu'r corff llywodraethol i symud tuag at lefel well o her fel ffrind beirniadol i'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl, wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. At ei gilydd, mae'n barnu cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn briodol, ond nid yw bob amser yn myfyrio'n ddigon da ar y modd y mae camau gweithredu blaenorol wedi gwella addysgu a dysgu.

Fe wnaeth y cynllun gwella ysgol ar gyfer 2012-2013 ganolbwyntio'n dda ar nifer fach o flaenoriaethau pwysig gyda meini prawf llwyddo clir i fesur cynnydd yn eu herbyn. Mae'r cynllun wedi arwain at welliannau ym medrau rhifedd trawsgwricwlaidd disgyblion ac at safonau ysgrifennu gwell yng nghyfnod allweddol 2.

Mae blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol yn deillio o'r adroddiad hunanarfarnu yn bennaf, ac maent yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn cynnwys nifer fawr o dargedau, ac nid yw llawer o'r rhain yn cynnwys deilliannau clir i fesur gwelliant yn eu herbyn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i uwch arweinwyr fonitro ac arfarnu cynnydd yn gywir. Mae cydlynwyr yn ymgymryd ag ystod eang o fonitro uniongyrchol ond nid oes cyswllt agos â blaenoriaethau presennol. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn nodi gormod o feysydd i'w gwella ac nid yw'n ymgorffori ei phrif flaenoriaethau yn gyson ar draws y cyfnodau allweddol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gynhyrchiol gyda rhieni ac mae bron pob rhiant yn gadarnhaol ynghylch gwaith yr ysgol. Cânt ystod dda o wybodaeth trwy gylchlythyrau a chyfarfodydd rheolaidd. Mae gwefan yr ysgol, a ddatblygwyd yn ddiweddar, yn dechrau darparu gwybodaeth am weithgareddau dosbarth presennol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ffrindiau cymdeithas yr ysgol yn codi cryn dipyn o arian i gefnogi'r ysgol. Er enghraifft, prynodd ddillad gwrth-ddŵr yn ddiweddar ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac mae hyn yn eu galluogi i gael cymryd rhan yn well mewn gweithgareddau awyr agored. Mae'r bartneriaeth gref gyda rhieni'n cael effaith gadarnhaol ar lefelau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn agos â'r awdurdod lleol wedi arwain at welliannau yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer mathemateg yn y ddau gyfnod allweddol a gwelliant mewn ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cysylltiadau da ag ysgolion eraill yn yr un teulu yn golygu y gellir rhannu arfer dda. Er enghraifft, cyflwynwyd system ddefnyddiol i osod targedau ar gyfer disgyblion unigol o ganlyniad i ymweliad ag ysgol arall. Mae hyn yn helpu disgyblion hŷn yn arbennig i wella'u gwaith.

Mae cysylltiadau sefydledig gyda'r cylch chwarae lleol. Cynhelir ymweliadau rheolaidd rhwng staff a disgyblion o'r cylch chwarae a'r meithrin. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym pan fyddant yn trosglwyddo i'r dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau da â'r ysgol uwchradd gyfagos yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer symud i Flwyddyn 7. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn safoni gydag ysgolion lleol eraill ac mae hyn yn helpu i sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o'u doniau penodol, er enghraifft i gynnal clwb i ddisgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 sy'n meddu ar ddawn artistig. Mae trefniadau i gyflenwi yn ystod amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn y ddau gyfnod allweddol yn dda iawn ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da â medrau TGCh yn ystod y sesiynau hyn.

Mae'r ysgol yn elwa ar hyfforddiant priodol i bob aelod o staff, er enghraifft i sicrhau dull cyson ac effeithiol o reoli ymddygiad yn gadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae prosiect diweddar ar y cyd ag ysgolion lleol eraill wedi cyfrannu'n llwyddiannus at welliannau mewn sillafu yn y ddau gyfnod allweddol.

Am y pum mlynedd diwethaf, bu diffyg yng nghyllideb yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar ei gallu i ddarparu adnoddau priodol ar gyfer meysydd o'r cwricwlwm fel TGCh.

Yng ngoleuni'r safonau gwell a gyflawnir gan ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgu mewn llawer o feysydd y cwricwlwm, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian ar y cyfan.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad yn 2013 ar y deilliant 5 disgwyliedig yn well nag yn 2012 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y ddau faes yn golygu bod yr ysgol wedi aros yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg yn 2013, ar ôl bod yn y 50% uwch yn 2012. Yn 2013, roedd perfformiad islaw cyfartaleddau'r teulu ar gyfer pob un o'r tri maes dysgu asesedig ac ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Roedd perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 yn 2013 hefyd yn uwch nag yn 2012 mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad personol a chymdeithasol yn debyg ar gyfer y ddwy flwyddyn. Roedd perfformiad ar ddeilliant 6 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn llythrennedd a'r 50% is mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 islaw cyfartaledd y teulu ar gyfer pob un o'r tri maes dysgu.

Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ar ddeilliant 5. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn datblygiad personol a chymdeithasol ar y lefel hon. Mae perfformiad merched yn uwch na bechgyn ym mhob maes dysgu ar ddeilliant 6.

Ar ddeilliant 5, mae cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyrhaeddiad eu cyfoedion ym mhob maes dysgu. Fodd bynnag, ar ddeilliant 6, nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill mewn datblygiad mathemategol a llythrennedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, bu tuedd ar i fyny mewn perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2013, arhosodd perfformiad ym mhob un o'r tri phwnc islaw cyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer pob un o'r tri phwnc a'r dangosydd pwnc craidd. Am y tair blynedd flaenorol, roedd perfformiad yn gyffredinol yn golygu ei bod yn y 25% isaf ar gyfer pob un o'r tri phwnc.

Ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, roedd perfformiad ym mhob un o'r tri phwnt yn well yn 2013 nag yn y pedair blynedd flaenorol. Fodd bynnag, mae perfformiad ym mhob un o'r tri phwnc yn parhau i fod islaw cyfartaleddau'r teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth a'r 50% is ar gyfer mathemateg. Am y tair blynedd cyn 2013, roedd perfformiad yn golygu ei bod yn y 50% is ym mhob pwnc.

Mae perfformiad bechgyn yn uwch na merched ar y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri maes pwnc. Mae perfformiad merched ychydig yn well na bechgyn ar y lefel

uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, tra bod perfformiad bechgyn yn well mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes unrhyw dueddiadau cyson rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a pherfformiad eu cyfoedion dros y blynyddoedd diwethaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 118 | 109 | 9 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 117 | 101 | 16 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 122 | 117 | 5 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 120 | 114 | 6 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 121 | 113 | 8 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 120 | 113 | 7 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 122 | 119 | 3 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 119 | 116 | 3 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 119 | 83 | 36 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 120 | 98 | 22 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 82% | 18% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 111 | 70 | 41 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 63% | 37% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 117 | 98 | 19 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 73 | 39 | 32 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 44% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 74 | 45 | 28 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 61% | 38% | 0% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 73 | 52 | 19 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 71% | 26% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 74 | 39 | 31 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 73 | 25 | 41 | 2 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 34% | 56% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 72 | 33 | 37 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 46% | 51% | 1% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 73 | 37 | 32 | 0 | 0 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 51% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 69 | 22 | 36 | 4 | 2 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 32% | 52% | 6% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 73 | 30 | 35 | 0 | 1 | 7 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 41% | 48% | 0% | 1% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 74 | 34 | 36 | 1 | 1 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 49% | 1% | 1% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 73 | 38 | 30 | 3 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 52% | 41% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 67 | 30 | 29 | 2 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 45% | 43% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 74 | 32<br>43% | 36<br>49% | 4<br>5% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 74 | 45<br>61% | 26<br>35% | 2<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 73 | 25<br>34% | 38<br>52% | 3<br>4% | 2<br>3% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 74 | 33<br>45% | 35<br>47% | 2<br>3% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 61 | 22<br>36% | 27<br>44% | 2<br>3% | 0<br>0% | 10 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 72 | 32<br>44% | 33<br>46% | 5<br>7% | 1<br>1% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 74 | 32<br>43% | 37<br>50% | 2<br>3% | 1<br>1% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jane Mccarthy | Arolygydd Cofnodol |
| Rhona Edwards | Arolygydd Tîm |
| Kenneth Dackevych | Arolygydd Lleyg |
| Louise Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rachael Owen | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.